

COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANRHAEADR-YNG-NGHINMEIRCH A GYNHALIWDYD AR NOS LUN 29AIN O IONAWR 2018 YN YSGOL PANT PASTYNOG, PRION AM 7.30 O'R GLOCH.

PRESENNOL: Y Cynghorwyr Bari Evans (Cadeirydd), Philip Williams, Elfed Williams, Geraint Jones, Stanley Williams, Iwan Jones, Jill Evans, Cynghorydd Sir Ddinbych Joseph Welch a'r Clerc.

1: YMDDIHEURIADAU: Y Cynghorwyr Iona Edwards-Jones, Hywel Davies a Falmai Evans.

2. DDATGAN DIDDORDEB.

Dim yn codi.

3. CADARNHAU COFNODION BLAENOROL Y CYNGOR.

Cywirdeb i'r eitem 3C o'r cofnodion blaenorol y Cyngor ar 27ain o Dachwedd 2017:- Ar hyn o bryd does yna ddim sicrwydd mi fydd disgyblion Ysgol Bro Cinmeirch, Llanrhaeadr a Phant Pastynog, Prion yr hawl chael trafniadaeth i'r Ysgolion Uwchradd Glan Clwyd, Llanelwy neu Brynhyfryd, Rhuthun o dan y sistem Clwstwr. Chadarnhawyd gweddill o'r cofnodion.

4. MATERION YN CODI O'R COFNODION.

Penderfynwyd y Clerc ofyn i'r Cynghorydd Sir Ddinbych, Huw Hilditch Roberts, os mae wedi cael cadarnhad perchnogaeth maes parcio Ysgol Pant Pastynog, Prion.

5. WEFAN Y CYNGOR.

Derbyniwyd adroddiad Cynghorydd Barri Evans fod Cynghorydd Iona Edwards-Jones wedi cychwyn gwneud gwaith ar wefan y Cyngor ac i drafod ymhellach yn cyfarfod nesaf y Cyngor. Cafwyd trafodaeth hefyd ynglŷn â phrynu offer cyfrifiadur Cyngor Cymuned i'r Clerc i'w thrafod ymhellach yn cyfarfod nesaf y Cyngor.

6. PWYLLGOR/TARGED LLEOL EISTEDDFOD YR URDD SIR DDINBYCH 2020.

Ar ôl trafodaeth penderfynwyd:-

A: Cynghorwyr Barri Evans ac Elfed Williams ymgynghori gyda Chyngor Ysgol Bro Cinmeirch a'r Cynghorwyr Jill Evans a Joseph Welch ymgynghori a Chyngor Ysgol Pant Pastynog ynglŷn â chydweithio i'r Pwyllgor/Targed lleol.

B. Penderfynwyd rhodd y Cyngor Cymuned o £1,000.00 i'r Pwyllgor lleol yn y flwyddyn ariannol bresennol.

7. CYLLID.

A. Datganiad Banc £16,700.00.

B. Derbyniwyd rhan olaf o'r precept am y flwyddyn 2017/18 - £3,960.00.

C. Taliad Cyngor Sir Ddinbych am gyfarfod y Cyngor - £20.00.

D. Derbyniwyd cais am gefnogaeth arian oddi wrth Siôn Ynyr Jones dros Urdd Gobaith Cymru am gefnogaeth arian tuag at "Prosiect Gwirfoddol Urdd Gobaith Cymru i Batagonia". Penderfynwyd cyfrannu £200.00 i'r Urdd Gobaith Cymru tuag at y prosiect.

E. Treth y Cyngor 2018/19. Ar ôl trafodaeth penderfynwyd gadael Treth y Cyngor am y flwyddyn ariannol 2018/19 ar y sail o £24 y preswyl sydd yn cynhyrchu incwm o £11,952.00.

8. CEISIADAU CYNLLUNIO.

A. Datblygiad Bryn Morfydd, Llanrhaeadr.

Ar gychwyn y cyfarfod croesawodd y Cadeirydd cynrychiolaeth o Gadnant (Rhys Davies a Georgia Crawley) i'r cyfarfod i ymateb cwestiynau oddi wrth yr aelodau ynglŷn â'r cais cynllunio Bryn Morfydd sydd wedi ei gyflawni i Gyngor Sir Ddinbych. Derbyniwyd aelodau'r wybodaeth a derbyniwyd cyn i'r prynhawn agored i weld a thrafod y cais cynllunio yn fwy manwl a threfnwyd gan y Cyngor Cymuned ar 1af Chwefror 2018 yn Festri Capel Llanrhaeadr rhwng 3 a 7 y prynhawn. Diolchwyd i'r aelodau Cadnant am fod yn bresennol ar gychwyn y cyfarfod. Penderfynwyd y Cyngor rhoi sylwadau ar y cais cynllunio ar ôl y prynhawn agored ar 1af o Chwefror.

B. Codi garej/gweithdy yn Y Fedwen Arian, Llanrhaeadr – dim gwrthwynebiad.

C. Addasiadau ac estyniad i'r adeilad allanol presennol i ddarparu modurdy a chyfleusterau storio yn Tyn Bedw, Prion - dim gwrthwynebiad.

D. Adeiladu manege ar gyfer defnydd personol yn Brŷn Bella. Nid oedd y Cyngor yn fodlon gyda cholli defnydd tir amaethyddol arall yn Saron. Derbyniwyd adroddiad y Cyngorydd Sir fod y cais cynllunio wedi ei chaniatáu erbyn hyn. Penderfynwyd y Clerc tynnu sylw Adran Cynllunio Cyngor Sir Ddinbych fod y cais cynllunio wedi ei chaniatáu cyn derbyn sylwadau'r Cyngor.

9. GOHEBIAETH.

A. Rhoddwyd y Clerc gopi o'r adroddiad blynyddol "Independent Remuneration Panel for Wales" i'r aelodau.

B. Derbyniwyd manylion cyfarfod Strategaeth Datblygu Hiraethog yn Ystafell Gymunedol, Tafarn Glan Llyn, Clawddnewydd ar nos Fawrth Chwefror 20fed, 2018 am 6.00 y.h.

Penderfynwyd y Cynghorwyr Bari Evans a Philip Williams fynychu'r cyfarfod.

C. Derbyniwyd nifer o adroddiadau er wybodaeth.

10. MATERION BRYD O DAN ADRAN 100B(4) O'R DDEDDF Y LLYWODRAETH LEOL 1972.

A. Derbyniwyd gwybodaeth fod y Band Eang yn Saron yn ddifrifol o araf ers peth amser a phenderfynwyd y Clerc tynnu sylw BT at y broblem.

B. Derbyniwyd gwybodaeth fod yna 10 o wlâu yn Ysbyty Dinbych am gael ei gau a phenderfynwyd ysgrifennu at Gadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ynglŷn ar siomedigaeth am y newyddion.

C. Penderfynwyd y Clerc tynnu sylw Adran Briffyrdd Cyngor Sir Ddinbych ynglŷn ar ganlynol:-

1. Cyflwr gwarthus y ffordd heibio Y Fron, Prion.
2. Cyflwr gwarthus y ffordd rhwng Tŷ Isa' a'r Big ym Mhrion.
3. Arwydd wedi disgyn wrth gyffordd Graig Lwyd ym Mhrion.

11. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR – Nos Lun 26ain o Chwefror 2018 yn Ysgol Bro Cinmeirch, Llanrhaeadr am 7.30 o'r gloch.